

# Bywyd da

Ci o'r enw Minnie a llun gyda'r nos o lan y môr y Rhyl fydd ffocws ymgyrch dwristiaeth 2021.

Lansiodd Cyngor Tref y Rhyl gystadleuaeth i gael delwedd hynod i'w throi yn fathodyn pin unigryw.

Mae maer y Rhyl y Cynghorydd Ellie Chard yn adrodd yr hanes. "Bu inni lansio'r gystadleuaeth mewn ymdrech i gael hyd i lun a oedd yn dangos ein llysenw fel Sunny Rhyl. Roeddem wedi gwneud bathodyn a gafodd ei ddosbarthu yn ein digwyddiadau cymunedol. Roedd yn rhywbeth poblogaidd iawn, felly roeddem yn meddwl y buasem yn dechrau rhywbeth newydd. Ond roedd dewis dim ond un ffotograff yn anoddach na'r disgwyl", meddai.

Anfonodd ffotograffwyr o bob cwr o Ogledd Cymru eu hoff luniau yn cynnwys tirnodau yn cynnwys glan y môr, Pwll Brickfield, cloc y dref a Marine Lake.



A ffotograffau o gi pedair oed o'r enw Minnie a llun gyda'r nos ger y môr a fydd nawr yn cael eu troi yn fathodynnau.

Chris Evans o Gallt Melyd, ffotograffydd amatur sydd wedi dysgu ei grefft drwy wylio fideos YouTube ac a sefydlodd Glwb Camera Prestatyn a dynnodd y llun gwych o'r haul yn machlud dros y Rhyl.

Holly Thomas, o'r Rhylm, a dynnodd y llun o'i chi yn eistedd yn Marine Lake ar ei thaith feunyddiol.

Meddai'r Cynghorydd Chard: "I ddechrau roeddem yn chwilio am un llun, ond roeddem wrth ein boddau gyda harddwch y llun glan y môr a dynnwyd gan Chris a'r llun o Minnie, ac rydym wedi penderfynu gwneud dau fathodyn. Mae Chris a Holly wedi cynnig rhywbeth sy'n gyfystyr â'r Rhyl."

Bydd y bathodynnau yn cael eu dosbarthu yn nigwyddiadau cymunedol y Cyngor Tref yn y dyfodol er mwyn hyrwyddo'r dref.

**Mwy/…**

+44 (0) 1745 889577
+44 (0) 7712 475576
rachael@gunsmokecommunications.co.uk
www.gunsmokecommunications.co.uk
@GunsmokeComms
GunsmokeCommunications

Meddai Chris, sy’n gweithio i Wales and West Utilities yn y dydd ac y mae ei luniau yn ymddangos yn rheolaidd ar adroddiadau tywydd ITV Cymru: “Dechreuais dynnu lluniau yn 2016 ac nawr rwy’n mynd â’r camera gyda mi i bobman, ynghyd ag Oscar y daeargi tarw Stafford. Mae’n wych cael dewis fy llun o’r Rhyl ac rwy’n edrych ymlaen at weld y batho-dynnau gorffenedig.”

Ategodd Holly sylwadau Chris gan ddweud ei bod wrth ei bodd bod Minnie, wedi ei henwi ar ôl Minnie Mouse, wedi ei dewis.

“Mae Minnie yn fodel go iawn ac rwyf wastad yn tynnu lluniau ohoni. Gwelais y gystadleu-aeth yn cael ei hysbysebu a meddwl y buaswn yn rhoi cynnig arni. Mae’n wych meddwl y bydd Minnie yn enwog.”

I gael gwybod am gynlluniau digwyddiadau at y dyfodol, edrychwch ar dudalen Facebook hy Cyngor Tref.

**Diwedd**